Rhif ymchwil gymdeithasol: 23/2026

Dyddiad cyhoeddi: 24/2/2026

# Gwerthusiad o Brosesau Cyllido Ysgolion Bro

## Crynodeb gweithredol

### 1. Nodau a methodoleg yr ymchwil

#### Cefndir

Mae'r papur hwn yn adrodd ar brif ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y broses o werthuso cyllid ysgolion bro. Datblygwyd y strategaeth ysgolion bro gyda'r nod o leihau anghydraddoldeb addysgol drwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion, teuluoedd, cymunedau, ac asiantaethau statudol. Mae'r dull yn cydnabod bod ysgolion yn chwarae rhan ganolog wrth fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ar ganlyniadau addysgol, ac yn grymuso ardaloedd lleol i deilwra dulliau mewn ffordd hyblyg i ddiwallu anghenion lleol. Mae'n dibynnu ar gydweithio cyfannol i wella presenoldeb, llesiant a chynhwysiant i bob dysgwr. Gan adeiladu ar fentrau cynnar sy'n dyddio o ddechrau'r 2000au, mae buddsoddiad diweddar gan y strategaeth ysgolion bro yn anelu at ehangu rolau fel swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a rheolwyr ysgolion bro, ochr yn ochr â chyllid cyfalaf i wella seilwaith.

#### Nodau ac amcanion

Canolbwyntiodd y gwerthusiad ar ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau, rolau swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a rheolwyr ysgolion bro, a sut y cyfrannodd y strategaeth ysgolion bro at feysydd canlyniadau allweddol. Ei amcanion oedd deall dyraniad cyllid ysgolion bro, archwilio sut mae'r strategaeth yn mynd i'r

afael â thlodi a rhwystrau eraill i addysg, archwilio effeithiau cynnar, nodi galluogwyr, rhwystrau, a meysydd i'w gwella, a datblygu argymhellion i gefnogi datblygiad y strategaeth yn y dyfodol.

## Methodoleg

Defnyddiodd y gwerthusiad ddull dulliau cymysg. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- arolygon gyda rheolwyr ysgolion bro (18 o ymatebwyr mewn 15 awdurdod lleol), swyddogion ymgysylltu â theuluoedd (37 o ymatebwyr mewn 15 awdurdod lleol), cynrychiolwyr awdurdodau lleol (12 o ymatebwyr mewn 12 awdurdod lleol), ac ysgolion (91 o ymatebwyr mewn 18 awdurdod lleol ar gyfer yr arolwg byr; 22 o ymatebwyr mewn saith awdurdod lleol ar gyfer yr arolwg manwl)
- cyfweliadau lled-strwythuredig gyda rheolwyr ysgolion bro (chwe chyfranogwr mewn chwe awdurdod lleol) a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd (pum cyfranogwr mewn pedwar awdurdod lleol)
- pum astudiaeth achos a gynhaliwyd mewn lleoliadau ac ysgolion amrywiol ledled Cymru

Ym mhob astudiaeth achos, fe gynhaliwyd cyfweliadau, grwpiau ffocws, trafodaethau anffurfiol ac arsylwadau â chyfanswm o 96 o gyfranogwyr, gan gynnwys rheolwyr ysgolion bro, swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, rhieni/gofalwyr, arweinwyr a staff ysgolion, llywodraethwyr, a phartneriaid cymunedol. Cynhaliwyd arolwg byr ychwanegol â rhieni/gofalwyr yn y pum ardal astudiaeth achos (114 o ymatebwyr).

# 2. Prif ganfyddiadau a chasgliadau

## Dosbarthu cyllid ysgolion bro

Roedd modelau dosbarthu cyllid yn amrywio o reolaeth lawn gan yr awdurdod lleol i'w ddirprwyo'n rhannol neu'n llawn i ysgolion. Fel arfer, roedd awdurdodau lleol yn cadw rhywfaint o'r cyllid, yn aml i ariannu rolau allweddol fel rheolwyr ysgolion bro. Cafodd ysgolion fynediad at gyllid drwy wneud cais neu drwy ddyraniad wedi'i dargedu yn seiliedig ar ddangosyddion fel cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim neu MALIC. Mewn ysgolion, roedd cyllid ysgolion bro yn aml yn cael ei ategu trwy'r Grant Datblygu Disgyblion neu gyllidebau craidd er mwyn cyflogi swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, ac roedd y timau ysgolion bro yn aml yn cefnogi'r broses o gael mynediad at grantiau ychwanegol.

Roedd diffyg eglurder eang ynghylch swm a diben cyllid ysgolion bro a pha mor hawdd ydyw i gael gafael arno. Roedd llawer yn aneglur ynghylch y gwahaniaethau rhwng cyllid cyfalaf a chyllid ar gyfer rolau, ac roedd dros hanner yr ysgolion a ymatebodd i'r arolwg manwl heb wybod bod cyllid cyfalaf ysgolion

bro yn bodoli. Mewn rhai ardaloedd, roedd oedi neu gyfathrebu cyfyngedig gan awdurdodau lleol ynghylch dyraniadau a meini prawf yn cael eu dehongli fel diffyg tryloywder, gan gyfrannu at rwystredigaeth ac, mewn rhai achosion, ymddieithriad oddi wrth ysgolion nad ydynt yn ymwneud â'r strategaeth ysgolion bro ar hyn o bryd.

## Ffyddlondeb ac addasiad wrth gyflwyno'r strategaeth

Mae amrywiad sylweddol yn y ffordd y cyflwynir ysgolion bro ledled Cymru, sy'n adlewyrchu hyblygrwydd bwriadol y strategaeth. Mae cyllid ysgolion bro wedi cefnogi ystod eang o weithgareddau, gyda'r ddarpariaeth yn targedu dysgwyr a theuluoedd sy'n profi rhwystrau i addysg yn benodol, gan ddefnyddio data lleol a data ar lefel ysgolion i dargedu'r cymorth. Adroddwyd bod y strategaeth ysgolion bro yn galluogi mynediad at gyfleoedd a chymorth cyfannol na fyddent wedi bod ar gael fel arall, gan gynnwys cyfleoedd dysgu i oedolion, gweithgareddau allgyrsiol, a chymorth ymarferol un-i-un. Roedd gweithgareddau'n cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau rhieni o ran cyfathrebu, ymddiriedaeth, a chymorth ymarferol. Cafodd amrywiad ei lunio gan anghenion ac asedau lleol, strwythurau awdurdodau lleol, a chefndiroedd staff allweddol. Er bod y gallu i addasu hwn yn cael ei werthfawrogi'n eang, fe greodd rai heriau o ran monitro a gwerthuso. Roedd y dulliau'n anghyson, ac roedd lleiafrif sylweddol o awdurdodau lleol yn nodi nad oedd unrhyw fonitro ffurfiol.

## Galluogwyr a rhwystrau i weithredu

Amlygwyd cydberthnasau cryf, ymrwymiad gan arweinwyr, a gweledigaeth strategol glir fel rhai galluogwyr hanfodol ar gyfer gweithredu'r strategaeth ysgolion bro mewn ffordd effeithiol. Pan oedd y strategaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau a gwerthoedd presennol yr ysgol, roedd yn lleihau llwyth gwaith y staff ac yn cefnogi newid yn niwylliant yr ysgol. Fodd bynnag, roedd sicrhau ymrwymiad yn fwy heriol mewn rhai cyd-destunau, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.

Roedd cyllid tymor byr, contractau dros dro, a mentrau blaenorol a oedd wedi'u dirwyn i ben yn tanseilio hyder a chynaliadwyedd, a gallent beryglu ymrwymiad gan ysgolion sydd ag adnoddau cyfyngedig ac a oedd yn ystyried y strategaeth ysgolion bro fel menter tymor byr. I'r gwrthwyneb, roedd ymrwymiad hirdymor gan awdurdodau lleol, aliniad â fframweithiau arolygu Estyn, ac integreiddio i'r broses o gynllunio datblygiad ysgolion yn cefnogi ymgysylltu. Tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at yr angen i hyrwyddo'r strategaeth yn gryfach yn genedlaethol y tu hwnt i'r sector addysg.

Roedd llwyddiant wrth weithredu yn aml yn dibynnu ar nifer fach o unigolion ymroddedig iawn, gan beryglu cynaliadwyedd. Er bod rolau'r swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a'r rheolwyr ysgolion bro yn cael eu gwerthfawrogi'n

eang, roedd hyfforddiant, goruchwyliaeth a datblygiad proffesiynol anghyson yn peri heriau o ran recriwtio a chadw staff. Roedd rhwystrau strwythurol, gan gynnwys lle cyfyngedig mewn ysgolion, ffactorau daearyddol, ac amheuaeth hanesyddol rhwng ysgolion a chymunedau, yn cyfyngu ymhellach ar y broses o gyflwyno'r strategaeth mewn rhai lleoliadau.

## Canlyniadau sy'n dod i'r amlwg

Er bod y mwyaf o'r cyfranogwyr yn teimlo ei bod yn rhy gynnar i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau mesuradwy, roedd arwyddion cryf o effeithiau cadarnhaol yn dod i'r amlwg yn y lleoliadau hynny lle sefydlwyd y strategaeth ysgolion bro. Ymhlith y rhain oedd gwell cydberthnasau rhwng ysgolion, teuluoedd a chymunedau, mwy o ymgysylltu â rhieni, a rhieni mwy hyderus, gwell presenoldeb a chyfranogiad ymhlith dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau, a chysylltiadau a chydlyniant cymunedol cryfach. Yn bwysig, yn y lleoliadau hynny lle'r oedd y strategaeth wedi'i hymgorffori, fe adroddodd ysgolion am lai o faich trwy strwythurau partneriaeth a thrwy rannu cyfrifoldeb am fynd i'r afael ag anghenion cymhleth.

## Canfyddiadau'r astudiaethau achos

Mae **Partneriaeth Gymunedol Dwyrain Caerdydd** yn dwyn ynghyd ysgolion, asiantaethau statudol, a sefydliadau lleol mewn rhwydwaith cydlynol. Ymhlith y galluogwyr y mae gweledigaeth glir ar gyfer y strategaeth ysgolion bro, gwybodaeth leol gref, a rôl y rheolwr ysgolion bro fel 'cysylltydd' system, tra bod y rhwystrau'n cynnwys petruster gan ysgolion ar y dechrau, yn enwedig yn achos ysgolion uwchradd. Mae'r bartneriaeth gymunedol yn dangos pa mor werthfawr yw cynnig ysgolion bro cydlynol sy'n osgoi dyblygu, sy'n adeiladu ar asedau lleol, ac sy'n lleihau'r baich ar ysgolion.

Yn **Ysgol Gynradd Maesincla, Gwynedd,** mae'r strategaeth ysgolion bro yn cael ei gweithredu trwy fodel dan arweiniad swyddog ymgysylltu â theuluoedd sy'n cyfuno cymorth ymarferol i deuluoedd (e.e. ymweliadau â'r cartref, cwblhau ffurflenni, cyfeirio) ag ymgysylltu helaeth â'r gymuned. Ymhlith y galluogwyr y mae cydberthnasau lleol y swyddog ymgysylltu â theuluoedd, ymrwymiad cryf gan aelodau staff, a phwyslais ar gysylltu â'r gymuned. Ymhlith y rhwystrau y mae amser cyfyngedig y swyddog ymgysylltu â theuluoedd ar y safle, ansicrwydd ynghylch cyllido, ac anhawster wrth bontio i ysgolion uwchradd nad ydynt yn ymwneud â'r strategaeth ysgolion bro. Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut y gall y strategaeth ysgolion bro feithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltu trwy weithgarwch sy'n seiliedig ar gydberthnasau, ond mae hefyd yn dangos yr heriau sy'n gysylltiedig â chyllid a chapasiti.

Mae **Castell-nedd Port Talbot** yn dangos dull sefydledig ledled awdurdod lleol sy'n gwneud cynnydd tuag at fynediad at swyddog ymgysylltu â theuluoedd ar

gyfer pob ysgol, a phwyslais ar ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Ymhlith y galluogwyr y mae arweinyddiaeth strategol, gweithredu fesul cam, a rhwydweithio cryf, ond mae problemau o hyd o ran cyllid tymor byr a seilwaith. Mae Castell-nedd Port Talbot yn dangos y gall dulliau system gyfan gefnogi ymarfer ac effaith gyson, ond mae cynaliadwyedd yn dibynnu ar adnoddau dros y tymor hwy.

Mae **Canolfan Ddysgu Sir Benfro** wedi defnyddio'r strategaeth ysgolion bro i gryfhau ethos sy'n canolbwyntio ar deuluoedd, gyda swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn darparu ymgysylltu â theuluoedd, digwyddiadau yn y gymuned, a gwaith amlasiantaeth. Ymhlith y galluogwyr y mae ymrwymiad gan arweinwyr a llywodraethwyr, ymreolaeth y swyddog ymgysylltu â theuluoedd, a rhwydweithio. Mae rhwystrau'n adlewyrchu cyfyngiadau penodol i Uned Cyfeirio Disgyblion (e.e. cyswllt cyfyngedig wrth giât yr ysgol a stigma), yn ogystal â chyfyngiadau yn ymwneud â chyllid tymor byr a seilwaith. Mae'r ganolfan ddysgu yn tynnu sylw at y ffaith y gall dulliau ysgolion bro gefnogi'r broses o ymgysylltu mewn lleoliadau arbenigol, ond gall heriau ariannu gyfyngu ar gynaliadwyedd.

Mae **Wrecsam** yn gweithredu'r strategaeth ysgolion bro mewn dwy ysgol uwchradd sy'n destun mesurau arbennig, gan ganolbwyntio ar waith presenoldeb yn seiliedig ar gryfderau a chyfleoedd yn y gymuned. Ymhlith y galluogwyr y mae ethos gwaith ieuenctid, dulliau ariannu dan arweiniad yr awdurdod lleol sy'n cefnogi targedu effeithiol, a chydweithio agos rhwng y rheolwr ysgolion bro ac arweinwyr yr ysgolion. Ymhlith y rhwystrau y mae ennill ymrwymiad ar y dechrau a heriau o ran ymgysylltu â theuluoedd sy'n gysylltiedig â daearyddiaeth a diffyg ymddiriedaeth. Mae profiad Wrecsam yn dangos y gall ysgolion bro leihau baich a chefnogi ysgolion i wella mewn cyd-destunau heriol.

## 3. Argymhellion

**Argymhelliad 1: Ymrwymo i'r strategaeth ysgolion bro fel strategaeth hirdymor, gyda threfniadau ariannu cynaliadwy.** Byddai buddsoddiad hirdymor yn cryfhau ymrwymiad ysgolion, yn galluogi proses recriwtio a chadw staff medrus, ac yn caniatáu amser i systemau a chanlyniadau mesuradwy ddatblygu.

**Argymhelliad 2: Sefydlu canllawiau cenedlaethol cyson ar gyfer monitro a gwerthuso wrth gydnabod hyblygrwydd lleol.** Byddai offer safonol ond hyblyg yn helpu i olrhain y broses weithredu, dangos effaith, a chefnogi asesiad hirdymor o'r strategaeth ysgolion bro.

**Argymhelliad 3: Sicrhau darpariaeth amserol o ganllawiau clir ac ymarferol ar gyfer mentrau yn y dyfodol.** Dylai disgrifiadau rôl clir, fframweithiau monitro a gwerthuso, ac enghreifftiau o weithredu gefnogi cysondeb wrth gadw

hyblygrwydd ar gyfer addasu ar y lefel leol.

**Argymhelliad 4: Cryfhau seilwaith traws-sector a gwelededd cenedlaethol i wreiddio'r strategaeth yn ehangach.** Byddai ymgorffori egwyddorion y strategaeth ar draws meysydd polisi ehangach, fel busnes, yn lleihau'r baich ar ysgolion ac yn meithrin ymgysylltu ledled y gymuned. Mae amlygrwydd cenedlaethol ysgolion bro yn parhau i fod yn gyfyngedig, er gwaethaf yr ymdrechion i ymgysylltu, gan amlygu'r angen am hyrwyddo ar lefel Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth gyson y tu hwnt i'r sector addysg.

**Argymhelliad 5: Dylai fersiynau yn y dyfodol o'r strategaeth gynnwys canllawiau penodol i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg o fewn ysgolion bro.** Mae canfyddiadau'n dangos y gallai ysgolion bro wneud mwy i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg. Gallai hyn gynnwys canllawiau a chyllid i hybu defnydd yr iaith ac annog ymgysylltu ar draws dysgu'r ysgol a'r teulu, er mwyn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050.

**Argymhelliad 6: Cryfhau mynediad teg at gymorth swyddog ymgysylltu â theuluoedd ar draws pob clwstwr ysgolion.** Byddai hyn yn hyrwyddo mynediad teg at gymorth ac yn cryfhau ymgysylltu ar draws cyfnodau pontio rhwng ysgolion a chymunedau.

**Argymhelliad 7: Clustnodi cyllid ysgolion bro o fewn awdurdodau lleol i amddiffyn ei ddiben strategol a sicrhau dyraniad teg a thryloyw.** Dengys y canfyddiadau fod ysgolion yn aml yn brin o wybodaeth glir am sut y caiff cyllid ysgolion bro ei ddyrannu, gan awgrymu y gallai clustnodi'r cyllid helpu i sicrhau dull mwy cyson a thryloyw.

**Argymhelliad 8: Sicrhau goruchwyliaeth strwythuredig a chymorth llesiant ar gyfer rheolwyr ysgolion bro a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd.** Mae angen strwythurau clir er mwyn sicrhau datblygiad proffesiynol a gwarchod llesiant staff mewn rolau heriol.

**Argymhelliad 9: Datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer disgrifiad rôl y swyddog ymgysylltu â theuluoedd.** Byddai hyn yn lleihau anghydraddoldebau mewn cyflog a disgwyliadau wrth gynnig hyblygrwydd ar gyfer addasu ar y lefel leol a llwybrau dilyniant clir.

**Argymhelliad 10: Dylai cyfleoedd rhwydweithio a rhannu barhau i ddatblygu a chael eu hannog.** Mae fforymau cenedlaethol a lleol rheolaidd yn galluogi dysgu, cysondeb a chydweithio ledled Cymru.

Awduron yr adroddiad: Alma Economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2026). Gwerthusiad o Brosesau Cyllido Ysgolion Bro. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 23/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-brosesau-cyllido-ysgolion-bro

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg hefyd.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-032-9